



Hanfodion Polisi Amgylcheddol: Adfer Dŵr

Mae dŵr croyw'n hanfodol i oroesiad bywyd o bob math, yn sylfaen i bob ecosystem, ac yn elfen bwysig o amaethyddiaeth a diwydiant Cymru. Rydym yn gyfarwydd â chlywed am ei gyfraniad at lesiant, ac mae hamdden dŵr croyw yng Nghymru'n cyfrannu tua £90m mewn gwariant twristiaeth at economi Cymru.

Y bygythiadau sy'n wynebu ein hamgylchedd dŵr croyw yw:

- llygredd amaethyddol, pan fo gwrtaith gormodol a gwastraff sy'n deillio o ddulliau ffermio dwys yn dinistrio ecosystemau mewn afonydd ac amgylcheddau morol;
- y diwydiant dŵr, pan fo camreolaeth a defnydd anghyfreithlon o orlifoedd carthffosiaeth gyfun yn peryglu iechyd pobl ac yn niweidio ecosystemau;
- effeithiau diwydiannol a fferyllol, gan gynnwys problemau a etifeddwyd o'r diwydiant mwyngloddio;
- y newid yn yr hinsawdd, gyda risg gynyddol o sychder a gordyfiant algae gwenwynig.

O'r herwydd, mae bioamrywiaeth dŵr croyw wedi gostwng 85% ers 1970, a dim ond 40% o afonydd Cymru sydd wedi'u hasesu fel afonydd mewn iechyd da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Gyda rhywogaethau, fel eogiaid, ar fin diflannu yn ystod y pum mlynedd nesaf, mae angen inni weithredu ar fyrder. Mae tymor y Senedd hon yn hollbwysig i ddiwygio'r modd yr ydym yn rheoli dŵr yng Nghymru, a rhaid inni ymrwymo i newid sylweddol ar unwaith i wella ein hafonydd.






Pa offer sydd gennym ni?
Ceir llawer o reolaethau deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio dŵr croyw.

Y prif rai yw:

- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:** Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu dyletswyddau o ran tynnu dŵr, risg llifogydd a rheoli dalgylchoedd.
- **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017:** Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn pennu targedau ansawdd dŵr ar gyfer ein hafonydd, gyda throthwyon llymach ar gyfer ein hafonydd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
- **Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021:** Maent yn pennu mesurau i leihau llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol yng Nghymru. Mae'r rhain ddarostyngedig i argymhellion sy'n deillio o adolygiad annibynnol (Adolygiad Bolton) a fu'n asesu a ydynt yn effeithiol i fynd i'r afael â llygredd dŵr ac yn cyflawni ar sail rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru.
- **Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026:** Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol pennu targedau sy'n rhwymo'n gyfreithiol erbyn 2028, ac mae'r blaenoriaethau ar gyfer y targedau hynny'n cynnwys lleihau'r risg y bydd rhywogaethau brodorol yn diflannu, rheoli ecosystemau'n effeithiol a lleihau llygredd.









Offer eraill:

- Cynigiodd y Papur Gwyrdd ar Ddiwygio Dŵr (a oedd yn seiliedig ar y Comisiwn Dŵr Annibynnol) newid sylweddol o ran y modd yr ydym yn rheoli dŵr er mwyn rhoi trefn lywodraethu newydd ar waith, gwella atebolrwydd a gwella integreiddio ar draws y sector dŵr.
- Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â phroblemau dŵr. Mae enghreifftiau o'r datrysiadau hyn yn cynnwys creu gwlyptiroedd newydd, adfer mawndiroedd neu blannu lleiniau clustogi i warchod afonydd rhag llygredd. O'u cymharu â datrysiadau wedi'u peiriannu, gall datrysiadau sy'n seiliedig ar natur wireddu manteision lluosog o ran mynd i'r afael â llifogydd, gwella ansawdd dŵr, atal sychder a darparu cartref i fywyd gwyllt. Gall rhai mathau o fywyd gwyllt, fel afancod, hyd yn oed greu eu datrysiadau eu hunain sy'n seiliedig ar natur, drwy ddal dŵr yn ôl yn y dirwedd.



Beth y gall ASau ei wneud i helpu i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr?

- Sicrhau bod y Papur Gwyrdd ar Ddiwygio Dŵr yn cael ei roi ar waith, gan lunio rhaglen bontio dryloyw, cynnwys rhanddeiliaid yn effeithiol, darparu trefn lywodraethu glir ac atebol ar gyfer dŵr, a darparu pwerau datganoledig cadarn i roi ar waith y newidiadau angenrheidiol ar gyfer Cymru.
- Sicrhau bod argymhellion Bolton ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyflym, gydag unrhyw newidiadau i'r rheoliadau'n cael eu hategu gan dystiolaeth.
- Cefnogi newidiadau i'r gyfraith i gyflymu'r defnydd o ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â phroblemau dŵr.
- Mynnu bod Cymru'n bodloni safonau Ewropeaidd (neu well) ar gyfer gwarchod dŵr croyw, gan gynnwys rhag cemegion a chynhyrchion fferyllol.
- Mynnu mwy o fuddsoddiad (cyhoeddus a phreifat) mewn adfer dŵr croyw i wella ansawdd dŵr ac i adfer rhywogaethau a chynefinoedd dŵr croyw.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhwydwaith o Sefydliadau Anllywodraethol ym meysydd yr amgylchedd, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r papur hwn yn cynrychioli barn gydsyniol grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn. Fe all aelodau hefyd gynhyrchu gwybodaeth eu hunain er mwyn codi materion mwy manwl sy'n bwysig i'w corff arbennig nhw.

Swydda Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Awyrlas: @waleslink.bsky.social

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Bluesky: @waleslink.bsky.social

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Cyfarwyddwr | Director: Karen Whitfield
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675